


# Geirfa Fathemategol




# Eilrifau

Gelwir rhifau sy'n rhanadwy â 2 yn union yn eilrifau.

Enghreifftiau o eilrifau yw 0, 2, 4, 6 ac 8.

Rhifau sy'n gorffen gyda 2, 4, 6, 8 neu 0 yw eilrifau.




# Odrifau

Gelwir rhifau sydd ddim yn rhanadwy â 2 yn union yn odrifau.

Enghreifftiau o odrifau yw 1, 3, 5, 7 a 9.

Rhifau sy'n gorffen gyda 1, 3, 5, 7 neu 9 yw odrifau.




# Ffactor

Ffactor yw rhif sy'n rhannu'n union mewn i rif arall heb weddill.

Enghraifft: Gall 20 cael ei rhannu'n union â 5, gyda gweddill o sero.


Felly mae 5 yn ffactor o 20.



# Lluosrif

Lluosrif yw rhif mewn tabl  
arbennig.

Enghraifft: Mae 32 yn lluosrif  
o 4, oherwydd mae 32 yn  
nhabl 4.



# Rhif Cysefin

Rhif sydd ddim ond yn rhanadwy ag 1 a'i hunan yw rhif cysefin.

Dim ond 2 ffactor: 1 a'r rhif ei hun.

Enghraifft: 2, 3, 5, 7, 11 ...



# Rhif Cyfansawdd

Rhif sydd yn gwbl ranadwy gan unrhyw rif arall heblaw 1 a'i hun yn cael ei alw'n rhif cyfansawdd.

Mae ganddo fwy na dau ffactor.

Enghraifft: 4, 6, 8, 9, 10 ...



# Lluosrif Cyffredin Lleiaf

Y cyfanrif rhif positif lleiaf sy'n lluosrif o ddau neu mwy o rifau.

Enghraifft: Lluosrif Cyffredin Lleiaf 3 a 15 yw 15, oherwydd 15 yn lluosrif o 3 ac hefyd yn lluosrif o 5. Lluosrifau Cyffredin arall yn cynnwys 30 a 45 ond 15 yw'r lleiaf.





# Ffactor Cyffredin Mwyaf

Y rhif mwyaf sy'n rhannu'n union mewn i ddau neu mwy o rifau.

Ar ôl darganfod holl ffactorau dau neu mwy o rifau, y ffactor mwyaf sy'n debyg yw'r ffactor cyffredin mwyaf.

Enghraifft: Ffactor cyffredin mwyaf 12 a 16 yw 4 oherwydd 1, 2 a 4 yw ffactorau 12 a 16, a 4 yw'r mwyaf.



# Rhif Sgwâr

Yr ateb ar ôl lluosu cyfanrif gyda'i hunan.

Enghraifft:  $4 \times 4 = 16$ , felly 16 yn rhif sgwâr.

Mwy o rifau sgwâr:

0 (=0x0)

1 (=1x1)

4 (=2x2)

9 (=3x3)

1	2	3	4
2	4		
3		9	
4			16



# Ailistradd

Ailistradd rhif yw gwerth, pan luosir gyda'i hunan, yn rhoi'r rhif.

Enghraifft:  $4 \times 4 = 16$ , felly ailistradd 16 yw 4.

Y symbol yw 

1	2	3	4
2			
3			
4			16

